

☘ Ceisiadau: Arferion Gorau

Gwnewch y Broses yn Haws

- Ceisiwch osgoi ffurflenni cais **hir**
- Caniatewch i ymgeiswyr **lawrlwytho'r ffurflen** a gweithio ar dempled Dogfen Word (neu gyfwerth) cyn uwchlwytho, er mwyn iddynt allu gweld yr holl gwestiynau ymlaen llaw a chymryd eu hamser i ateb yn iawn
- Caniatewch i ddefnyddwyr **weld eu cynnydd wrth gwblhau'r broses** (e.e. tudalen 1 o 5)
- Caniatewch iddynt **arbed eu gwaith a dychwelyd** - mae hyn yn osgoi dibyniaeth ar gof gweithredol

Ysgrifennwch yn Eglur

- Cadwch y cwestiynau'n **gryno**, yn **uniongyrchol**, ac yn **hawdd eu deall**
- Cynigwch **arweiniad** wrth ymyl pob cwestiwn, gan ddangos beth yn union yr ydych yn chwilio amdano

Cefnogwch Ffydd Gwahanol o Ymgeisio

- Byddwch yn agored i **fformatau ymgeisio amgen**, megis fideos, portffolios, neu fideos byr
- Cynigwch **ffordd glir a chyfrinachol** o wneud cais am addasiadau rhesymol ar gyfer y camau nesaf
- Eglurwch yn bendant **nad yw datgelu cyflwr yn ofynnol**, ond **cynigwch le i ofyn am gefnogaeth** os oes angen (a rhowch sicrwydd iddynt na fydd hyn yn cael effaith negyddol ar eu siawns)

Dyluniwch ar gyfer Mynediad

- Cofiwch **gynnwys manylion cyswllt** er mwyn i ymgeiswyr allu gofyn cwestiynau ychwanegol
- Sicrhewch eu bod yn **cyd-fynd â rhaglenni darllen sgrin** a thechnolegau cynorthwyol eraill
- Rhaid i ffurflenni cais gynnwys **gwiriwr sillafu**
- Defnyddiwch **ffont darllenadwy** (sans serif, 12pt+) a **fformatio clir**
- Darparwch y canllawiau ymgeisio mewn **sawl fformat**, yn cynnwys **Print Bras, Sain, Hawdd eu Deall**, ac **Iaith Arwyddion Prydain**

Ffurflen Gais am Swydd

Mae'r canllawiau ymgeisio hyn ar gael yn y fformatau canlynol:

- Print bras
- Hawdd eu deall
- Sain
- Iaith Arwyddion Prydain (BSL)

Gallwch wneud cais am y swydd hon ar ffurf sain, fideo, neu destun. Os oes arnoch angen ymgeisio mewn fformat gwahanol neu angen cefnogaeth ychwanegol (megis cymorth ysgrifennu), mae croeso i chi gysylltu â ni.

Mae'r porth ymgeisio hwn yn cyd-fynd â rhaglenni darllen sgrin.

